**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mawrth 2009**

## ADOLYGIAD O BEIRIANNAU ARBENNIG

**Adroddiad gan Bill Murphy, Uwch Reolwr Gweithrediadau**

## Diben yr Adroddiad

1 Hysbysu Aelodau o'r cynnydd wnaed yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn 2006-07 i adolygu'r math, natur ac effeithiolrwydd yr amrediad o Beiriannau Arbennig (y peiriannau sydd â phrif rôl o achub a chefnogi mewn amgylchedd heb fod yn un tân) weithredwyd gan y Gwasanaeth.

## Cefndir

2 Mae'r cynllun tair blynedd, oedd yn ganlyniad i'r Adolygiad, wedi cyrraedd y cam lle mae nifer arwyddocaol o fuddion yn cael eu sylweddoli. O ganlyniad, bydd y buddion yma'n gwella'r cyflwyniad o effeithlonrwydd gwasanaeth gweithredol i gymunedau, busnesau a rhwydwaith fewnol Gogledd Cymru a darparu systemau gwaith diogel mwy cadarn, datblygedig o waith i ddiffoddwyr tân y Gwasanaeth.

## Gwybodaeth

3 Mae'r holl beiriannau pwmpio o fewn y Gwasanaeth wedi eu huwchraddio'n Bympiau Achub gan y cyflwyniad o offer achub hydrolig gwell. Mae hyn yn galluogi'r diffoddwyr tân i ryddhau

personau sy'n sownd mewn cerbydau a sefyllfaoedd eraill yn gyflymach ac yn fwy effeithiol nag o'r blaen. Mae buddsoddiad o £600,000 dros y tair blynedd diwethaf yn yr offer yma wedi galluogi'r Awdurdod i arddangos ei ymrwymiad i sicrhau fod y gofynion cynyddol ar adnoddau sy'n mynychu gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn cwrdd â gallu i sicrhau fod y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei ddefnyddio i ymdrin â'r heriau a gynigir gan ei rwymedigaethau statudol.

4 O ganlyniad i'r offer uwchraddol yma sydd ar gael ar Bympiau Achub nawr, mae'r pedwar Tendr Argyfwng, oedd yn cael eu defnyddio i achub o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn bennaf, yn y broses o gael eu tynnu allan o wasanaeth. Mae dau o'r cerbydau yma yn cael eu haddasu a'u hailgyflwyno fel Unedau Achub Technegol, un yng Nghaernarfon ac un arall yn Wrecsam. Diben y cerbydau yma fydd mynychu digwyddiadau sy'n ymwneud â cherbydau nwyddau mawr, trenau ac awyrennau. Bydd yr ymagwedd yma'n sicrhau bydd y nifer optimwm o staff medrus ar gael yn barhaol gydag offer arbenigol i gwrdd â'r heriau gall y math yma o ddigwyddiad gyflwyno. Mae buddsoddiad o oddeutu £125,000 dros y ddwy flynedd diwethaf wedi sicrhau cwblhau'r hyfforddiant o staff, darpariaeth o offer arbenigol ac addasiadau cerbyd i'r ddau beiriant fod yn weithredol erbyn Ebrill 2009.

5 Bydd y Tendr Argyfwng, sydd wedi ei leoli ym Mae Colwyn ar hyn o bryd, yn cael ei addasu a'i ailgyflwyno fel Uned Achub Arbennig, sy'n canolbwyntio ar Achub Anifeiliaid Mawr ac Achub gyda Rhaff. Bydd staff yn yr orsaf yn derbyn hyfforddiant ychwanegol i sicrhau sgiliau arbenigol i ddelio gyda'r math hwnnw o ddigwyddiad. Bydd buddsoddiad o oddeutu £40,000 yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol yn sicrhau cwblhau hyfforddiant staff, offer arbenigol ac addasiadau i gerbydau erbyn i'r peiriant fod yn weithredol erbyn mis Gorffennaf 2009.

6 Mae cynlluniau yn cael eu datblygu i sefydlu dichonoldeb trosi'r Tendrau Argyfwng sy'n weddill yn Uned Lles, fydd yn cael ei anfon i amrediad o fathau o ddigwyddiadau i sicrhau fod gan

staff gweithredol gyfleusterau newid, toiledau a chawod. Bydd y ddarpariaeth yn gwella trefniadau iechyd a lles staff.

7 Yn ystod 2007-08, fe gymrodd yr Awdurdod y penderfyniad o gynyddu'r nifer o Beiriannau Deuddiben (cerbydau diffodd tân bychan sy'n gallu delio gyda thanau adran mewn eiddo o fynediad cyfyngedig yn ogystal â thanau i ffwrdd o'r ffordd a gweundiroedd) o'r pedwar cerbyd sydd eu lle ar hyn o bryd, i gyfanswm o ddeg. Mae nifer o ffactorau wedi atal y Gwasanaeth rhag gweithredu'r gyfarwyddeb hon o fewn yr amserlen wreiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys y gyfradd ariannol bresennol, amser adeiladu a'r broses gytundebol faith. Rhagwelir bydd y Gwasanaeth yn derbyn y cerbydau yma ym mis Mawrth 2010. Fel y cyfrwy, bydd y cerbydau presennol ddarparwyd i'r diben hwn yn cael eu cynnal er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**Casgliad**

8 Mae'r manteision gweithredol fydd yn cael eu sylweddoli o ganlyniad i'r Adolygiad o Beiriannau Arbennig a'r buddsoddiad dilynol, oedd yn cynnwys £28,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn arwyddocaol. Mae'r Adolygiad wedi rhoi'r Awdurdod mewn safle lle gellir cwrdd â heriau amgylchedd sy'n newid yn fynych ac yn gynyddol ymdrechgar gyda sicrwydd.

**Argymhelliad**

9 Fod Aelodau yn nodi'r cynnydd wnaed gyda'r Adolygiad Peiriannau Arbennig.